# Adroddiad Blynyddol 2018/19

## Cyng. Elwyn Jones

## Annibynnol

## Ward Penisarwaun



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

# Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Bod ar gael i etholwyr pentrefi'r Ward unai ar y ffon, drwy e-bost, lythyr neu wyneb yn wyneb. Trafod gyda nifer o etholwyr y Ward eu problemau a phryderon a darparu gwybodaeth a'u cefnogi yn briodol
- Ymgysylltu yn rheolaidd gyda'r Cyngor Cymuned ar faterion perthnasol
- Helpu i ddatrys problemau gydag asiantaethau eraill perthnasol
- Mynychu cyfarfodydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhiwlas
- Mynychu Cyfarfodydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Penisarwaun
- Mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion lleol
- Cydweithio gyda'r gymuned i sicrhau gwelliannau yn y Ward. Wedi llwyddo i sicrhau bod gwaith ail wynebu'r lonydd ym mhentref Penisarwaun yn mynd ymlaen, ac erbyn hyn mae'r pedair lon i mewn i'r Pentref mewn llawer gwell cyflwr
- Sicrhau bod lôn Rhes Ucha', Rhiwlas, wedi cael ei hail-wynebu hefyd
- Cynorthwyo mudiadau lleol, e.e. fel Cadeirydd Pwyllgor Neuadd Rhiwlas 'rwyf wedi bod yn rhan o'r tîm i godi arian at adnewyddu'r neuadd trwy wahanol ddigwyddiadau, gan gynnwys cyngherddau ac ati
- Rhan o'r tîm codi arian i gael peiriant de-ffib yn Rhiwlas

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Aelod o Bwyllgor Craffu Cymunedau
- Is-Gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Aelod o'r Is-Bwyllgor Iaith

- Aelod o Bwyllgor Apeliadau Cyflogau
- Aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Rhiwlas
- Aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Penisarwaun
- Cadeirydd Pwyllgor Neuadd Rhiwlas
- Ysgrifennydd Cynghrair Pêl Droed Gwyrfai
- Clerc i Gyngor Cymuned Pentir

| | |
|---|---|
| Rhagfarn Heb Wybod / Unconscious Bias | 02/04/2019 |
| Tai Teg - Pa Gynlluniau Sydd ar Gael | 20/02/2019 |
| Powerpoint | 31/01/2019 |
| Cyflwyniadau Effeithiol | 07/12/2018 |
| Gofalu am ein Hamgylchedd | 28/11/2018 |
| YGC : Effaith Newid Hinsawdd ar Gymunedau Gwynedd | 21/11/2018 |
| Microsoft PowerPoint Uwch | 19/11/2018 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion - Ymchwil Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref | 28/09/2018 |
| Diogelu Plant ac Oedolion (2018) | 19/09/2018 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 11/07/2018 |
| Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol) | 27/06/2018 |